

Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig DRIVE

Cyfle gwaith cyffrous yn Threshold DAS i rywun sy'n ddeinamig ac yn chwilfrydig, sy'n angerddol dros hawliau, amrywiaeth a chynhwysiant, ac sydd eisiau gweithio ochr yn ochr â'r rhai efallai nad oes ganddynt lais.

Rydym yn sefydliad cydraddoldeb menywod sy'n bodoli i ddileu trais yn erbyn menywod a merched ac i gefnogi goroeswyr. Rydym yn cydnabod bod angen dull sy'n ymwneud â'r gymdeithas gyfan i ddod â thrais ac cam-drin i ben a chyflawni newid cymdeithasol, ac mae angen chi arnom i'n helpu i wneud hynny.

Pwrpas y Swydd:

1. Darparu gwasanaeth rheng flaen o ansawdd uchel i ddioddefwyr cam-drin domestig, gan ddarparu gwasanaeth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl ac y mae eu partneriaid/cyn-bartneriaid yn ymgysylltu â Phrosiect DRIVE.
2. Gweithredu fel Un Pwynt Cyswllt ar gyfer elfen cyswllt â dioddefwyr Prosiect DRIVE

Cyd-destun y Swydd

1. Mae Threshold DAS yn darparu gwasanaeth arbenigol, annibynnol sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma, ar gyfer menywod a phlant sy'n profi trais a cham-drin domestig a rhywiol, yn ogystal â materion ehangach sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Darperir y gwasanaeth drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys asesiadau arbenigol o risgiau ac anghenion, pecynnau cymorth wedi'u teitwra i unigolion a gwaith grŵp.
2. Darparu gwasanaeth rheng flaen o ansawdd uchel i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol, ac i'r rhai y mae materion ehangach VAWDASV yn effeithio arnynt.
3. Darparu gwasanaeth rheng flaen o ansawdd uchel i ddioddefwyr cam-drin domestig, gan ddarparu gwasanaeth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.
4. Gweithio o fewn fframwaith amlasiantaethol sy'n cynnwys MARAC (Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg) ac ymatebion partneriaeth lleol i gam-drin domestig.
5. Darparu cymorth ac eiriolaeth i ddioddefwyr sy'n defnyddio gwasanaethau cyfiawnder troseddol a/neu lysoedd teulu.
6. Gweithio ochr yn ochr ag ymyriadau gyda chyflawnwyr er mwyn sicrhau diogelwch dioddefwyr.

Mae'r swydd hon ar agor i fenywod yn unig, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, Atodlen 9, Rhan 1.

Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol.

Prif Ddyletswyddau:

1. Nodi ac asesu risgiau ac anghenion dioddefwyr cam-drin domestig gan ddefnyddio rhestr wirio ar gyfer nodi risgiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
2. Canolbwyntio ar achosion risg uchel a'u blaenoriaethu, a darparu gwasanaeth ymyrraeth argyfwng rhagweithiol tymor byr i ganolig drwy gynllunio diogelwch unigol a chymorth personol.
3. Gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig sydd mewn perygl uchel i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau a fydd yn cadw nhw a'u plant yn ddiogel.
4. Eiriolaeth dros ddioddefwyr sydd mewn perygl uchel gyda'r asiantaethau a all helpu i fynd i'r afael â cham-drin domestig drwy:
 - Deall rôl yr holl wasanaethau statudol ac anstatudol perthnasol sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig, a sut mae eich rôl yn cyd-fynd â'u gwaith.
 - Darparu eiriolaeth, cymorth emosiynol ac ymarferol, a gwybodaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys gwybodaeth am opsiynau cyfreithiol, tai, iechyd a chyllid.
 - Gweithio'n uniongyrchol gyda'r holl bartneriaid asiantaethol allweddol i fynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sydd mewn perygl uchel, a sicrhau bod eu cynlluniau diogelwch yn cael eu cydlynu, yn enwedig drwy MARAC (Cynadledau Amlasiantaethol Asesu Risg)
5. Rheoli llwyth achosion gan sicrhau bod pob cleient yn cael y cymorth priodol sy'n diwallu ei anghenion unigol.
6. Darparu cymorth cymunedol drwy ymweld â phobl sy'n profi cam-drin domestig yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau diogel eraill.
7. Cefnogi cleientiaid i ennill grym a hyder, a'u helpu i adnabod nodweddion a deinameg y cam-drin domestig sy'n bresennol yn eu sefyllfa, a'u cynorthwyo i adennill rheolaeth dros eu bywydau.
8. Deall strwythurau partneriaeth amlasiantaethol a gweithio o fewn amgylchedd amlasiantaethol, gan gynnwys cymryd rhan yn MARAC (Cynadledau Amlasiantaethol Asesu Risg). Byddwch yn cyfrannu at ymyriadau ac yn helpu i lunio cynllun i amddiffyn dioddefwyr ac unrhyw blant, gan gynnal rôl annibynnol ar ran eich cleient a sicrhau mai ei ddiogelwch ef neu hi sy'n ganolog i unrhyw ymateb.
9. Cymryd rhan mewn adolygiadau achos cyfnodol gyda'r rheolwr llinell, yn seiliedig ar adolygiad o'r risg a'r cam-drin, sy'n:
 - Cyfrannu at gynllunio camau gweithredu er mwyn symud achosion ymlaen, cyfeirio cleientiaid at wasanaethau perthnasol neu gau achosion.
 - Darparu adborth i'ch cleient ac i'r asiantaethau perthnasol.
10. Sicrhau bod ffeiliau achosion a chofnodion yn gywir ac yn gyflawn, a bod y ddau yn cael eu cadw yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

11. Cynnal systemau monitro a gwerthuso a chronfeydd data effeithiol sy'n asesu nifer yr achosion a dderbynnir, yr allbynnau, perfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.
12. Llunio adroddiadau chwarterol, chwe-misol a blynyddol yn unol â gofynion adrodd a monitro Prosiect DRIVE.
13. Cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, polisïau a gweithdrefnau cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, a'r holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'ch gwaith.
14. Cefnogi cydweithwyr ac asiantaethau partner drwy godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant ar DRIVE. Mynychu digwyddiadau a chefnogi eiriolaeth sefydliadol er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr cam-drin domestig.
15. Parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth y gymuned y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddi, a chydabod anghenion a phryderon ystod amrywiol o oroeswyr, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i bawb.
16. Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, a sicrhau bod unrhyw achosion a nodir fel achosion diogelu plant, plant mewn angen, neu unrhyw wybodaeth arall y bernir bod angen ei rhannu, yn cael eu rhannu ar unwaith â'r rheolwr llinell a'r asiantaethau perthnasol.
17. Cadw'n gyfredol â datblygiadau yn y gyfraith a chodau ymddygiad proffesiynol, a chynnal safonau arfer gorau wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig.
18. Sicrhau yr ymgynghorir â defnyddwyr y gwasanaeth ynghylch effeithiolrwydd y gwasanaeth a'i ddatblygiad.
19. Mynychu cyfarfodydd perthnasol, e.e. Fforwm IDVA (Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig), MARAC (Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg) ac ati.
20. Bod yn benodol gyfrifol am gynnal cyswllt â'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth anweithredol.
21. Defnyddwyr gwasanaeth sy'n gysylltiedig â DRIVE drwy gydol cyfnod yr ymyriadau DRIVE.

Cyfrifoldebau Cyffredinol

- Mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb i weithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal y ddarpariaeth gwasanaeth.
- Mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.
- Cymryd rhan yn y system rheoli achosion a goruchwyllo.
- Cynrychioli Threshold DAS a hyrwyddo ei ethos; gweithio mewn ffordd gadarnhaol a rhoi adborth llawn i'r sefydliad.
- Cyfrannu at waith monitro ac adrodd Threshold DAS.
- Ymgymryd â hyfforddiant i ddiweddarau sgiliau yn unol â Pholisi Hyfforddi a Datblygu Threshold DAS.
- Cynnal arferion gwaith gwrthymesol a gwrthwahaniaethol.
- Cadw at bolisi cyfrinachedd y sefydliad.
- Sicrhau bod ymddygiad personol ac ymddygiad y staff yn y maes cyfrifoldeb yn dangos uniondeb, bod yn agored ac yn onest, yn wrthymesol, yn anfeirniadol ac yn cefnogi amrywiaeth.

Oherwydd natur y gwaith, mae tasgau a chyfrifoldebau yn aml yn anrhagweladwy ac yn amrywiol. Felly, disgwylir i bob gweithiwr weithio mewn ffordd hyblyg ac efallai y bydd angen ymgymryd â thasgau nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn eu disgrifiad swydd.

Manyleb Y Person

Cymwysterau/Profiad

- Meddu ar dystysgrif hyfforddi IDVA SafeLives fel IDVA cymwysedig.
- Bod wedi gweithio fel EIDVA cymwysedig am o leiaf blwyddyn.
- Meddu ar brofiad o reoli achosion neu ddefnyddio systemau data'r heddlu.

Sgiliau

- Meddu ar sgiliau cyfathrebu, trafod a chynghori rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, wrth ryngweithio ag amrywiaeth o asiantaethau ac unigolion.
- Meddu ar sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol a rhywfaint o brofiad o weithio gyda chronfeydd data.
- Meddu ar sgiliau rheoli argyfwng cryf a'r gallu i ymdrin â sefyllfaoedd llawn straen ac anodd.

Nodweddion Personol

- Bod yn dosturiol ac yn dangos empathi tuag at sefyllfa eich cleientiaid.
- Dangos gwydnwch cryf wrth wynebu amgylchedd sy'n newid ac sy'n heriol.
- Gweithredu gydag uniondeb a pharch wrth weithio gyda phob cleient, asiantaeth ac unigolyn.
- Gweithio'n hyblyg fel rhan o dîm.